



Helpu
Prydain Fawr
i weithio'n dda

2016

Rhagair



Pan fydd pobl yn cael eu niweidio gan waith mae'n arwain at boen a dioddefaint i unigolion a'u teuluoedd, tarfu ar a niweidio enw da cwmnïau a chostau i'r economi gyfan sydd yn gwneud busnesau, a Phrydain, yn llai cystadleuol.

Does neb am i hyn ddigwydd, ac, yn bwysicach, ni fedrwn fforddio i hyn ddigwydd. Mae'n hanfodol bod pawb yn medru chwarae eu rhan mewn cadw economi Prydain yn rhedeg mor effeithiol ac effeithlon â phosibl.

Cefais fy ysbrydoli o glywed trwy'r sioeau teithiol strategaeth am fusnesau - mawr a bach - sy'n gwybod bod rheolaeth iechyd a diogelwch effeithiol yn caniatáu dyfeisgarwch, yn cynyddu cynhyrchiant ac yn galluogi twf. Maent yn enghreifftiau ar gyfer pawb yn y system iechyd a diogelwch.

Dyna pam rwyf yn rhoi fy nghefnogaeth lwyr i'r strategaeth newydd hon. Bydd yn helpu Prydain Fawr i gynnal ei record iechyd a diogelwch ddiguro yn y byd, gan amlhau'r buddion ehangach y gall y system hon gynnig.

Mae mynd i'r afael â salwch yn y gweithle yn thema allweddol, a hynny yn briodol. Collir tua 23 miliwn o ddiwrnodau gwaith yn flynyddol o'i herwydd. Mae unigolion, cyflogwyr a'r wladwriaeth yn wynebu cost o tua £9 biliwn oherwydd afiechyd yn sgil amgylchiadau gwaith heddiw. Felly mae'n rhaid lleihau salwch yn y gweithle er mwyn lles a ffyniant Prydain.

Thema allweddol arall yn y strategaeth yw sicrhau bod busnesau - yn enwedig BBaChau - yn gwybod sut mae gweithredu'n gywir ac yn effeithlon. Mae deddfwriaeth ac arweiniad eisoes wedi eu symleiddio ond mae angen gwneud rhagor ac mae'r strategaeth yn dangos sut.

Cefais fy synnu o'r ochr orau o weld yr egni y tu ôl i greu'r strategaeth newydd, sydd yn cynnwys rhanddeiliaid mewn digwyddiadau ledled Prydain Fawr a thrafodaethau ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'n hynod o bwysig nawr bod yr ysgogiad hwn yn cael ei gynnal a bod pawb yn y system yn cymryd perchnogaeth o'r thema - beth bynnag yw eich swyddogaeth, mae gennych ran weithredol i'w chwarae wrth gyflenwi potensial y strategaeth. Os digwydd hyn, fe fyddwn wir yn helpu Prydain Fawr i weithio'n dda.

Justin Tomlinson AS

Gweinidog dros Bobl Anabl
(cwmpasu HSE)

Helpu Prydain Fawr i weithio'n dda: Strategaeth system iechyd a diogelwch newydd



Rwyf am ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu hyd yma at ein rhaglen Helpu Prydain Fawr i weithio'n dda a'r trafodaethau hanfodol sydd wedi eu cynnal ar y strategaeth newydd ar gyfer system iechyd a diogelwch galwedigaethol Prydain Fawr.

Mae'r sgysiau rydym wedi eu cael dros ddeufis cyntaf 2016 wedi amlygu bod gennym gefnogaeth gref ar gyfer pob un o'r themâu yn y strategaeth newydd. Rydym wedi siarad â channoedd o bobl yn uniongyrchol ac wedi cyrraedd miliynau yn rhagor trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Ond rydym wedi gweld bod yna fwy na 'chefnogaeth'; mae llawer iawn o egni ac awydd i gyfrannu at yrru yn ein blaenau ymhob rhan o'r system. Mae hyn yn rhoi'r hyder i ni y medrwn gynnal ein record ddiguro ym maes iechyd a diogelwch. Mae gofyn i ni symud ymlaen yn gyflym nawr.

Ceir cytundeb yn gyffredinol ymhlith y rhai hynny rydym wedi ymwneud â hwy bod atal niwed i weithwyr a'r cyhoedd yn rhan annatod o lwyddiant ac i barhad twf. Ein her gyfunol yw sicrhau bod pawb yn ymwybodol o hyn, yn ei ddeall a'i fod wedi ei blannu ym meddylfryd pawb - ac ym mhob un o'n gweithredoedd.

Mae egwyddorion ein system yn gadarn ac wedi gwrthsefyll prawf amser:

- Mae gan y rhai hynny sydd yn creu risgiau gyfrifoldeb i reoli'r risgiau hynny - gosod perchnogaeth o risg yn ei briod le.
- Dylai gweithredu fod yn gymesur â'r risgiau sydd angen eu rheoli - sydd yn golygu bod angen mynd ati i deilwra yn ôl pob busnes, i natur y gwaith a wneir a'r bobl sydd yn gweithio yno.

Mae gormod o gymhlethdod a biwrocraatiaeth ynghlwm ag iechyd a diogelwch. Clywsom lawer o bobl yn dweud bod gennym, eisoes, yr wybodaeth i wneud themâu'r strategaeth yn realiti. Roedd y neges bod hyn ynghylch bod yn fwy clyfar - nid gwneud mwy yn unig - yn atseinio ymhlith ein cynulleidfaoedd. Trwy gadw pethau mor syml a phlaen â phosibl medrwn sicrhau bod pob busnes yn gweld bod hyn yn eu galluogi i fod yn llwyddiannus a chynhyrchiol.

Yn awr mae arnom angen gweld gwir berchnogaeth y strategaeth hon - gan lawer, nid gan ychydig yn unig. Nid HSE strategaeth yr HSE yw hyn; mae ar gyfer y system gyfan a phawb ynddi.

Bydd HSE yn dal i gymryd cyfrifoldeb fel y prif ysgogwr, yn gweithio gyda chyd-reoleiddwyr, cyd-weithwyr ar draws y llywodraeth a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod ein rheolaeth yn parhau i fod yn syml ac effeithiol, a bod ein harweiniad yn hygyrch i bawb. Ond lledaenu perchnogaeth o'r uchelgais i wella iechyd a diogelwch yw'r allwedd i'n llwyddiant.

Mae gennym gyfle digynsail i ddal i greu system iechyd a diogelwch alwedigaethol i'r 21ain ganrif, o safon ryngwladol fydd yn helpu Prydain Fawr i weithio'n dda.

Os medrwn ddod at ein gilydd i helpu gwireddu hyn, cynnal y gwelliannau a wnaed mewn diogelwch, a gafael yn y cyfle i roi'r un flaenoriaeth i iechyd, bydd yn helpu gwella cynhyrchiad, yn helpu cadw costau i lawr, helpu cadw gweithwyr yn ddiogel ac yn iach, a diogelu'r cyhoedd.

Y Fonesig Judith Hackitt DBE

Cadeirydd HSE



Crynodeb gweithredol

Pwyntiau allweddol

- Mae gan Brydain Fawr record iechyd a diogelwch i fod yn falch ohoni.
- Bydd chwe thema flaenoriaeth newydd yn helpu Prydain Fawr i weithio'n dda.
- Dylai pawb yn y system iechyd a diogelwch chwarae eu rhan.

Mae record iechyd a diogelwch Prydain yn destun cenfigen mewn llawer rhan o'r byd. Yn ganolog i hyn mae diogelu pobl trwy reoli risg mewn ffordd gymesur ac effeithiol, gan gefnogi dyfeisgarwch a chynnydd cynhyrchiant. Yr her yw gwella ar y record drawiadol hon. Mae HSE yn ceisio dylanwadu ar y system trwy strategaeth Helpu Prydain Fawr i weithio'n dda.

Tra bod safle HSE fel rheoleiddiwr yn sicrhau y bydd yn parhau i chwarae rhan allweddol, mae swyddogaeth hefyd gan bawb sydd â rhan neu ddiddordeb mewn gwella iechyd a diogelwch yn y gweithle. Dyma beth a elwir 'y system', nid cysyniad haniaethol, ond rhwydweithiau o sefydliadau ac unigolion, gan gynnwys, ymhlith eraill cyflogwyr, cyflogeion, cyrff diwydiant a masnach, cadwyni cyflenwi, cyrff yn y trydydd sector, cyrff yswiriant a chyfreithiol, cynrychiolwyr gweithwyr, sefydliadau proffesiynol a llywodraeth yn ogystal â chyd-reoleiddwyr a llawer o rai eraill. I'w roi mewn ffordd arall, mae hyn yn golygu pawb sydd yn ymgymryd â neu'n dylanwadu ar weithgareddau ac agweddau yn y gweithle

Mae'r strategaeth Helpu Prydain Fawr i weithio'n dda yn gosod y themâu blaenoriaeth i ni ganolbwyntio arnynt am y pum mlynedd nesaf. Mae'n bwysig cydnabod ar y dechrau na fydd hyn ar draul yr hyn a wneir yn dda eisoes, ond mae'r meysydd a nodir yma yn rhai y mae angen i bob un ohonom ganolbwyntio ein hymdrechion ar y cyd er mwyn gwneud y gwelliant mwyaf.

Bydd HSE yn parhau i fod yn brif ysgogwr, boed hyn trwy ddiwygio parhaus ar reoliadau, gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, cynnal archwiliadau, asesu achosion ac adroddiadau diogelwch, neu weithredu gorfodol ble bo angen.

Bydd HSE yn parhau i weithredu fel galluogwr, yn cefnogi busnesau, yn enwedig busnesau bach a chanolig, (BBaChau), trwy ddarparu cyngor syml, hygyrch a pherthnasol a herio'r 'arbenigwyr' sydd yn gorgyfranogi a gorddehongli gofynion. Dylai hyn hwyluso rheolaeth risg gymesur, addas ac effeithiol, gan annog pawb yn y system i gymryd mwy o berchnogaeth o iechyd a diogelwch ac yn y pen draw helpu Prydain Fawr i weithio'n dda.

Er mwyn rhoi canolbwynt i'r gwaith pwysig hwn, mae HSE wedi gosod chwe thema strategol a fydd yn gosod pwyslais o'r newydd ar wella iechyd yn y gweithle, yn ogystal ag adeiladu ar record ddiogelwch lwyddiannus iawn.

Y chwe thema strategol

- Gweithredu ar y cyd:** Hyrwyddo perchnogaeth letach o iechyd a diogelwch ym Mhrydain Fawr.
- Mynd i'r afael ag afiechyd:** Tynnu sylw at a mynd i'r afael â'r gost sy'n gysylltiedig â salwch cysylltiedig i'r gwaith.
- Rheoli risg yn dda:** Symleiddio rheolaeth risg a helpu busnesau i dyfu.
- Cefnogi cyflogwyr bach:** Cynnig cyngor syml i BBaChau fel eu bod yn gwybod beth sydd angen ei wneud.
- Mynd bob yn gam â newid** Rhagweld a mynd i'r afael â heriau newydd.
- Rhannu ein llwyddiant:** Hyrwyddo buddion system iechyd a diogelwch ddiguro Prydain Fawr.

Ymrwymiad ledled y wlad

Cafodd y themâu strategol hyn themâu strategol hyn eu trafod gyda chwaraewyr allweddol – yn cynrychioli pob sector a sefydliad â diddordeb mewn iechyd a diogelwch – mewn rhaglen o ymrwymadau ledled y wlad ym misoedd Ionawr a Chwefror 2016.

Roedd yr adborth yn awgrymu cefnogaeth unfrydol dros y nod trosfwaol i helpu Prydain Fawr i weithio'n dda.

Negeseuon allweddol yn cefnogi Helpu Prydain Fawr i weithio'n dda

- Gallwn fod yn falch o record Prydain Fawr ar iechyd a diogelwch galwedigaethol – mae'n un o'r goreuon yn y byd.
- Mae rheoli risg yn gywir yn galluogi mentergarwch a thyfiant, ac yn hanfodol ar gyfer llwyddiant mewn busnes, yn ogystal â lles gweithwyr.
- Mae angen i bawb yn y system chwarae ei ran a gwneud i Brydain Fawr weithio'n dda. Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb.

Chwe thema strategol

Pwyntiau allweddol

- Mae angen perchnogaeth ehangach ar iechyd a diogelwch.
- Mae'n bwysig amlygu a mynd i'r afael â chostau salwch sy'n gysylltiedig â'r gwaith.
- Mae angen cydnabyddiaeth ehangach o'r buddion i fusnes sy'n dod gydag ymagwedd gymesur at risg.
- Mae gormod o BBaChau yn dal heb wybod bod cyngor plaen a syml ar gael a fedr eu helpu i reoli eu cyfrifoldebau iechyd a diogelwch.
- Mae angen i bob un ohonom sganio'r gorwel a 'chynllunio-i-mewn' rheolaeth risg effeithiol mewn technolegau newydd neu sy'n dod i'r amlwg a modelau busnes.
- Mae buddion i Brydain Fawr a diwydiannau Prydeinig o hyrwyddo ein hymagwedd at iechyd a diogelwch ar hyd a lled y byd.

Trwy'r trafodaethau sydd wedi digwydd yn ddiweddar, mae awydd cryf i adnewyddu'r uchelgais ar gyfer iechyd a diogelwch ym Mhrydain Fawr. Mae'r canlyniadau eisoes ymhlith y gorau yn y byd, ond nid oes unrhyw berygl o hunanfodddhad, a'r uchelgais yw parhau i ddyfeisio a newid, gan gadw ar y blaen o ran datblygiadau newydd yn y gweithle yn ogystal â thueddiadau rhyngwladol.

Y chwe thema yw'r sail ar gyfer cytuno ar ffordd ymlaen ar y cyd a fydd yn helpu Prydain Fawr i weithio'n dda. Mae'r themâu wedi derbyn cefnogaeth eang ar draws sectorau gwahanol yn ystod y broses ymrwymiad ac maent yn darparu llwyfan cryf ble gellir datblygu cynlluniau cyflawni manwl, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid.

Mae'r strategaeth newydd yn seiliedig ar gysail syml - trwy weithio ar y cyd mewn amgylchedd cefnogol a chalonogol, wedi ei gydbwyso gyda rheolaeth effeithiol a chymesur a rheolaeth risg, gall y system fod yn fwy na swm ei rhannau. I'r HSE, mae'r strategaeth hefyd yn cynnig cyfeiriad clir o ran ble dylid targedu adnoddau i sicrhau'r effaith fwyaf.

Y canlyniad fydd perchnogaeth ehangach o'r materion, gyda busnesau yn medru mwynhau'r gwelliant mewn cynhyrchiant a ddaw yn sgil diwylliant o iechyd a diogelwch, tra bydd y gweithlu yn fwy iach a diogel.



Gweithredu ar y cyd

Nid cyfrifoldeb i'w neilltuo i unigolyn penodol neu ran o sefydliad yw iechyd a diogelwch, ond rhan annatod o swyddogaeth pawb. Mae angen perchnogaeth ehangach o'r materion. Mae hyn yn golygu ymrwymo pawb sydd yn rhannu'r cyfrifoldeb o helpu Prydain Fawr i weithio'n dda, am fod ganddynt swyddogaeth hanfodol o ran rheoli risg ac atal niwed i unigolion, i fusnesau ac i'r economi.

Ar draws pob cenedl, rhanbarth neu sector, mae arnom angen perchnogaeth ar y cyd sydd yn adlewyrchu amgylchiadau lleol orau. Bydd y rheoleiddwyr yn cadw eu swyddogaethau allweddol, gan ddarparu cyngor ac arweiniad wedi ei dargedu ar gyfer grwpiau o gynulleidfaoedd allweddol a gweithredu gorfodaeth pan a ble bo angen. Bydd annog eraill i gymryd perchnogaeth o iechyd a diogelwch yn rhan annatod o sicrhau bod y thema hon yn llwyddiannus. Mae hyn yn golygu bod pawb yn cyd-weithio i gyrraedd y rhai hynny nad ydynt wedi ymrwymo'n llwyr.

Astudiaeth achos: **Grymuso Gwelliant yn y diwydiannu ynni**

Cymdeithas y Rhwydweithiau Ynni (ENA) yw llais y rhwydweithiau trydan ym Mhrydain Fawr. Lansiodd ENA, Energy UK a phedwar undeb llafur, gyda chymorth gan HSE, eu menter Grymuso Gwelliant gyda'r amcan o wneud y diwydiant ynni yn arweinydd byd ym maes perfformiad iechyd a diogelwch.

Fe amlygodd adolygiad yr her a'r cynnydd wrth fwrw ati i leihau'r nifer o achosion ac anafiadau ac roedd y fenter wedi helpu cyfrannu i leihad o 40% mewn achosion angheuol, mawr a cholli amser.

Mae Grymuso Gwelliant yn darparu fframwaith trostfwaol o gefnogaeth i raglenni unigol cwmnïau ac yn profi'n effeithiol wrth helpu cymryd y cam nesaf sydd ei angen wrth gyrchu'r nod o berfformiad arweiniol.



Mynd i'r afael ag afiechyd

Mae afiechyd sydd yn gysylltiedig â gwaith yn broblem i bob rhan o gymdeithas, gyda rhychwant o gyflyrau o ganser a chlefydau hirion eraill o natur gudd, i straen ac anhwylderau cyhyrysgerbydol. Dylai ymwybyddiaeth ddyfnach o'r niwed, y gost a'r gallu i atal salwch sy'n gysylltiedig â'r gwaith yrru gweithredu ar y cyd i wella canlyniadau iechyd.

Bydd hyn yn galw am weithredu hir-dymor a chydlynol ar draws pob sector, gan alw ynghyd partneriaid ychwanegol megis y GIG ac eraill i gefnogi'r newid mewn ymddygiad a'r rhaglenni ymwybyddiaeth fydd eu hangen.

Elfen allweddol o'r thema hon fydd ataliad cynharach, sydd yn fwy cost-effeithiol na cheisio ymyrryd pan fydd person yn dioddef o afiechyd mwy difrifol. Bydd hyn yn galw am ganolbwyntio mwy ar faterion iechyd yn y gwaith, tra'n parhau i sicrhau bod cynnal safonau diogelwch yn flaenoriaeth.

Astudiaeth achos: **Lleihau asthma galwedigaethol**

Un o'r prif achosion o asthma galwedigaethol yw bod amlygiad i isoseianadau, cemegolion sydd i'w canfod yn y paent a ddefnyddir i drwsio cerbydau.

Mae project pedair blynedd sydd yn cynnwys cynrychiolwyr ar draws y diwydiant trwsio cerbydau a HSE wedi nodi ffyrdd newydd, ymarferol o hyfforddi gweithwyr.

Roedd y rhain wedi helpu lleihau amlygiad i gemegolion peryglus ymhlith y 12 000 o weithwyr yn y diwydiant trwy gymryd camau syml megis dangos sut i ddefnyddio bwth chwistrellu yn gywir. Ers yr ymyriad, mae biofonitro gweithwyr wedi cynyddu ac mae lefelau dod i gysylltiad â'r cemegolion yn parhau yn is, gan ddangos gwelliant mewn rheoli amlygiad.



Rheoli risg yn dda

Mae sefydliadau llwyddiannus yn deall bod rheolaeth synhwyrol a chymesur o risg yn rhan annatod o gyflawni eu busnes. Mae'r ymagwedd hon yn cefnogi twf, yn galluogi dyfeisgarwch ac yn diogelu ased pennaf sefydliad, ei bobl. Gall canlyniadau cadarnhaol gynnwys lleihad mewn absenoldeb oherwydd salwch, lleihau costau a chynnal enw da. Dylai hyrwyddo'r achos busnes cymhellol hwn helpu hyd yn oed mwy o fusnesau i wneud yn fawr o'r buddion lu a all ddeillio o ddiwylliant iechyd a diogelwch da.

Bydd rhannu enghreifftiau o ymarfer, gyda chefnogaeth gwybodaeth a chynghor targedig perthnasol yn caniatáu i'r system osod dealltwriaeth gyffredin o sut ddylai iechyd a diogelwch cymesur edrych. Mae gan weithwyr iechyd a diogelwch proffesiynol swyddogaeth bwysig i'w chwarae. Bydd helpu busnesau o bob maint ei gael yn gywir mewn dull effeithiol ac effeithlon yn meithrin ymddiriedaeth ac yn gwella safonau.

Astudiaeth achos: **Dysgu iechyd galwedigaethol trwy brofi risgiau (LOCHER)**

Mae'r ymagwedd newydd hon yn cynnwys y genhedlaeth nesaf o bobl ifanc mewn iechyd a diogelwch. Cafodd ei ddatblygu gan fyfyrwyr mewn colegau mewn partneriaeth ag arbenigwyr iechyd a diogelwch mewn diwydiant a chefnogwyr, yn cynnwys Safety Groups UK.

Mae prentisiaid yn dysgu am risgiau iechyd galwedigaethol, gan helpu gosod dealltwriaeth o'r risgiau allweddol a dulliau o'u sefydlu yn eu cof hir-dymor. Fe gawsant reolaeth dros sut roeddynt yn dysgu ac yn cofnodi eu canfyddiadau. Bu'r myfyrwyr yn cynllunio posteri ac yn creu ffilmiau dogfen gan ddefnyddio eu ffonau symudol i ddangos beth roeddynt wedi ei ddysgu am risgiau iechyd galwedigaethol. Rhannont eu canfyddiadau gyda myfyrwyr eraill mewn colegau ar hyd a lled y byd trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r ymagwedd hon yn gweithio gan fod dysgu yn cynyddu ac yn cael ei gofio am gyfnod hirach os yw'n digwydd mewn ffordd hwyliog. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o brofiadau dysgu gwahanol, megis gwranddo, darllen, clywedol, arddangosiadau, grwpiau trafod ac ymarfer trwy wneud. Y bwriad yw y bydd y myfyrwyr yn mynd a'r arferion da maent wedi eu dysgu gyda hwy i'r gweithle wrth iddynt symud i fyd diwydiant.



Cefnogi cyflogwyr bach

Gall cyrraedd busnesau bach a micro fod yn anodd, ond nid yn amhosibl. Gan weithio ar y cyd, mae llawer eisoes wedi ei wneud i helpu busnesau bach, ond mae cyfleoedd i weithio'n fwy deallus. Mae llawer o fusnesau mawrion a rhyngol wedi datblygu cadwyni cyflenwi effeithlon a pherthnasau cynhyrchiol trwy weithio gydag a chefnogi busnesau bach.

Yn ogystal â hyn mae llawer o sefydliadau yn darparu cymorth a chefnogaeth am ddim i BBaChau y tu allan i'w cadwyni cyflenwi trwy fentrau traws-sector.

Ni ddylai rheoli risgiau yn y gweithle fod yn gymhleth nac yn gostus i BBaChau. Mae sicrhau bod cefnogaeth gyflym a hawdd ar gael i fusnesau bach ddeall, fel y medrant gwrdd â'u gofynion, yn parhau'n her i bob sector.

Bydd yn bwysig hefyd i adnabod pwy yw'r dylanwadwyr allweddol i BBaChau, a gweithio gyda hwy i godi lefelau ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael gan gyfoedion ac arbenigwyr.

Astudiaeth achos: **Ystadau Rhagorol**

Mae Ystadau Rhagorol wedi helpu mwy na 6500 o fusnesau bach Prydeinig i ddeall a rheoli eu risgiau iechyd a diogelwch yn well. Trwy'r cynllun, mae cyflogwyr mawrion, rheoleiddwyr a sefydliadau megis y gwasanaethau tân a heddlu lleol wedi gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cefnogaeth wedi ei deilwra, yn rhad ac am ddim, i fusnesau bach ar ystadau diwydiannol lle ceir lefelau uchel o ddamweiniau ac afiechyd.

Erbyn hyn mae Ystadau Rhagorol wedi hyfforddi ymhell dros 6000 o bobl ac wedi helpu busnesau bach i ddysgu o wybodaeth a phrofiad busnesau eraill.



Mynd bob yn gam â newid

Mae Prydain Fawr yn arwain y byd wrth ragweld a mynd i'r afael â'r heriau iechyd a diogelwch newydd sy'n dod gyda newid cymdeithasol, economaidd a thechnolegol.

Mae'r gallu hwn i ragweld, wedi ei gyfuno gyda'r wybodaeth ddofn o'r system ac arbenigedd heb ei ail, yn golygu bod rhagweld heriau newydd iechyd a diogelwch yn faes lle gall Prydain Fawr chwarae rôl arweiniol, er enghraifft trwy alluoedd ymchwilio blaengar yr HSE. Maent yn cael eu defnyddio eisoes i helpu Prydain Fawr, ynghyd â gwledydd ar hyd a lled y byd, i wella iechyd a diogelwch, yn ogystal â chanlyniadau busnes gwell.

Er mwyn aros ar y blaen ym myd rheoli risg, bydd angen i Brydain Fawr ddatblygu medrusrwydd o ansawdd uchel, gan ragweld heriau gweithleoedd yfory a defnyddio hyblygrwydd ein hymagwedd gosod nodau i'w datrys mewn ffyrdd sydd yn galluogi dyfeisgarwch a'r defnydd o dechnolegau newydd.

Mae mynd i'r afael heddiw â phroblemau yfory yn fuddsoddiad cyfrifol sydd yn diogelu gweithwyr, yn galluogi ymagweddau newydd a gwahanol ac yn darparu'r wybodaeth, y sgiliau newydd a'r arbenigedd y gall Prydain Fawr rannu yn rhyngwladol.

Astudiaeth achos: **Economi hydrogen**

Bu parodrwydd i fuddsoddi mewn iechyd a diogelwch yn allweddol i ddatblygiad economi hydrogen sydd yn ymgodi ym Mhrydain Fawr.

Dros y degawd a aeth heibio, mae diwydiant, academia a HSE wedi gweithio ar y cyd i ddiffinio codau a safonau sydd wedi gosod sylfaen i gyflwyniad diogel cerbydau trydan celloedd-tanwydd wedi eu pweru gan hydrogen a datblygiad isadeiledd ail-lenwi diogel. Yr ychwanegiad diweddaraf i hyn yw gorsaf ail-lenwi, wedi ei phweru gan wynt, a agorodd yn Sheffield ym mis Medi 2015.



Rhannu ein llwyddiant

Gall pawb fod yn falch o enw da Prydain Fawr ledled y byd ym maes iechyd a diogelwch a hyrwyddo ei llwyddiant gartref a thramor. Mae creu system o safon fyd-eang yn nod y gall pob un ohonom anelu ati, a chael budd ohoni fel ffynhonnell ysbrydoliaeth a chyflawniad, a gallwn fod yn falch o'i chefnogi.

Mae'r strategaeth hon wedi canolbwyntio yn bennaf ar godi safonau ym Mhrydain Fawr. Ond dylem hefyd edrych ar ffyrdd i rannu ymarfer gorau a'r syniadau diweddaraf a dyfeisgarwch ar draws y byd. Gall hyn helpu dylanwadu ar systemau iechyd a diogelwch dramor a'i gwneud yn haws i fusnesau Prydeinig ehangu i farchnadoedd a thiroedd newydd. A gall y gwaith gynnig cyfleoedd masnachol ar gyfer gwerthu 'cynnyrch' neu ymgynghoriaeth iechyd a diogelwch Prydeinig.

Astudiaeth achos: **Llundain 2012**

Mae prosiect adeiladu Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012 wedi dangos nad yw adeiladu prosiectau mewn da bryd, ac oddi mewn i'r gyllideb, yn golygu cyfaddawdu ar iechyd a diogelwch gweithwyr.

Yn fuan wedi i Lundain gael ei dewis fel lleoliad Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012, cyfarfu HSE gyda'r Awdurdod Cyflenwi Olympaidd (ODA) i gytuno ar dargedau clir iawn ar ba safonau oedd i'w disgwyl, gan annog arweinyddiaeth gref a rhannu ymarfer da. Gwnaed yr ymrwymiad lefel uchaf i iechyd a diogelwch yn eglur o'r dechrau gan helpu creu amgylchedd gweithio diogel i'r miloedd o weithwyr ar y safle.

O ganlyniad, ni chafwyd unrhyw ddamwain anghueol, y tro cyntaf mewn adeiladu Olympaidd, a nifer aruthrol o isel o ddamweiniau ac achosion peryglus yn ystod y 66 miliwn awr anhygoel o waith. Er mwyn sicrhau bod eraill o'r diwydiant adeiladu yn medru elwa ar y gwaith da, bu'r HSE yn cydweithio â'r ODA ac eraill i adnabod a dadansoddi ymarfer da a'r gwersi a ddysgwyd o brosiect adeiladu Llundain 2012.

Mae'r wybodaeth a'r gwersi a ddysgwyd wrth adeiladu'r Parc Olympaidd, a'r paratoi ar gyfer a llwyfannu'r Gemau bellach yn cael ei rannu i helpu codi'r bar o fewn y sectorau adeiladau a digwyddiadau, ac yn gweithredu fel achos enghreifftiol i Brydain Fawr.

Sicrhau Newid

Pwyntiau allweddol

- Cynnal y cynnydd a wnaed mewn diogelwch, tra'n rhoi'r un flaenoriaeth i iechyd.
- Gall perchnogaeth ehangach o faterion iechyd a diogelwch arwain at wella cynhyrchiant a buddion busnes, tra'n diogelu gweithwyr.
- Mae angen gweithredu ar y cyd ac unedig gan bawb yn y system i helpu Prydain Fawr i weithio'n dda.

Mae record iechyd a diogelwch Prydain yn destun cenfigen i lawer o'r byd. Gan adeiladu ar fframwaith rheoleiddio cadarn sydd wedi gwrthsefyll prawf amser, mae'r bum mlynedd a aeth heibio wedi eu harwain gan y strategaeth Byddwch yn rhan o'r ateb. Ond gan fod nifer o ffactorau wedi newid, gan gynnwys technolegau newydd, newid cymdeithasol a ffocws newydd ar iechyd galwedigaethol, mae'n amserol i edrych eto ar ble dylid gosod ffocws y bum mlynedd nesaf.

Mae'r anghenion sylfaenol yn dal mewn lle:

- arweiniad cryf a gweladwy;
- cydweithio a phartneriaeth, gan gynnwys ymrwymiad dilys gan y gweithiwr;
- bod gan gyfarwyddwyr, rheolwyr, arolygwyr a gweithwyr y gallu i adnabod a rheoli'r risgiau a grëir gan eu gweithredodd yn y gwaith;
- cael hyder y cyhoedd yn niogelwch y diwydiannau peryglus iawn.

Canolbwynt y strategaeth yw darparu cyfeiriad i'r system iechyd a diogelwch ehangach ar gyfer Prydain Fawr a phawb sy'n ymwneud ag, neu'n rhyngweithio gyda'r, system, fel y gellir gwneud mwy o gyfraniad ar y cyd i wella canlyniadau. Mae HSE wedi ymrwymo i chwarae ei ran mewn gwella canlyniadau a chyflawni ei gyfrifoldebau fel y rheoleiddiwr annibynnol a'r prif symudwr yn y system.

Bydd HSE yno i gefnogi'r ymdrechion hynny trwy gipio a hyrwyddo ymagweddau llwyddiannus a datblygu mesurau i gadw llygad ar gynnydd at y nod o gyflenwi'r themâu. Bydd arweiniad gan HSE yn rhoi hyder i eraill yn y system i gymryd mwy o berchnogaeth.

Ar gyfer yr holl system iechyd a diogelwch, mae nifer o ymrwymiadau i helpu Prydain Fawr i weithio'n dda. Dylai'r system, gan gynnwys HSE:

- annog a chydabod gwelliannau, gweithio ar y cyd i gyflenwi canlyniadau gwell a lleihau beichiau diangen ar fusnesau;
- barhau i hyrwyddo'r gyfundrefn reoleiddio ar sail risg, a gosod nodau, sydd wedi gweithio mor dda ar ran iechyd a diogelwch ym Mhrydain Fawr;
- weithio gyda phartneriaid yn y system i wneud gweithleoedd yn fannau mwy diogel ac iach, gan ddarparu maes chwarae gwastad i gyflogwyr cyfrifol gyda rheoleiddwyr a chyd-reoleiddwyr, trwy gynghori, hyrwyddo, a ble bo angen, gorfodi safonau da o reoli risg;
- ddefnyddio rheoliad cymesur ar sail risg i gefnogi canlyniadau gwell, dyfeisgarwch a'r defnydd diogel o dechnolegau newydd;
- ddatblygu gwasanaethau a chynnyrch sydd yn cyfrannu at well rheolaeth o risgiau, gan rannu ein gwybodaeth yma ac ymhellach;
- barhau'r ymgom a'r sgwrs gyda rhanddeiliaid i wneud y system yn well, gan edrych bob amser am y cyfle i ddarparu cyngor syml, cyngor a chefnogaeth syml ac ymarferol.



Helpu
Prydain Fawr
i weithio'n dda